**Ymateb 62. Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), CCAC Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) a Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru (GPSI)**

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Llais Cynghorau Cymru**

Ni yw Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC); sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol sy'n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol. Rydym yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru.

Ein haelodau yw'r 22 o Gynghorau yng Nghymru ac mae'r tri awdurdod tân ac achub ac awdurdodau'r 3 pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

**Credwn fod y syniadau sy'n newid bywydau pobl yn digwydd yn lleol.**

Mae cymunedau ar eu gorau pan maent yn teimlo eu bod wedi'u cysylltu â'u cynghorau trwy ddemocratiaeth leol. Trwy hyrwyddo'r cysylltiadau hynny, eu hwyluso a'u cyflawni, gallwn ddatblygu democratiaeth leol fywiog sy'n galluogi cymunedau i ffynnu.

**Ein nod yn y pen draw** yw hyrwyddo, diogelu, cefnogi a datblygu llywodraeth leol ddemocrataidd a buddiannau cynghorau yng Nghymru.

**Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth drwy**

- Hyrwyddo swyddogaeth a statws cynghorwyr ac arweinwyr cynghorau
- Sicrhau'r disgresiwn lleol mwyaf posib o ran deddfwriaeth neu ganllawiau statudol
- Cefnogi a sicrhau cyllid hirdymor a chynaliadwy i gynghorau
- Hybu gwelliant dan arweiniad y sector
- Annog democratiaeth leol fywiog gan hybu mwy o amrywiaeth
- Cefnogi cynghorau i reoli eu gweithlu'n effeithiol

**Cyflwyniad**

Mae awdurdodau lleol yn gweld darpariaeth gwaith ieuenctid yn hanfodol ar gyfer pobl ifanc i ddysgu yn eu cymunedau a lleoliadau gwahanol i sefydliadau ffurfiol a datblygu'r sgiliau angenrheidiol i ddod yn ddinasyddion gwerthfawr a chynhyrchiol. Mae gan y llywodraeth leol hanes cryf o arwain a darparu gwaith ieuenctid o ansawdd da, yn arbennig yn dilyn Adroddiad Albermarle (1960), a oedd yn amlinellu'r angen i lywodraeth leol gymryd cyfrifoldeb am ddarparu gweithgareddau allgyrsiol ar gyfer pobl ifanc. O'r adroddiad hwn, sefydlwyd y sector statudol o'r gwasanaeth ieuenctid. Dyma ymateb ar y cyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) a Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru (GPSI) i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar fframwaith statudol newydd ar gyfer gwaith ieuenctid - *Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Cyflawni dros Bobl Ifanc.*

C1. Ydych chi'n teimlo bod y diffiniad arfaethedig o waith ieuenctid yn glir ac yn helpu i wahaniaethu rhwng gwaith ieuenctid a gwasanaethau eraill sy'n cefnogi pobl ifanc?

1. Roedd *Adroddiad Thematig Estyn ar Wasanaethau Cymorth Ieuenctid* (2018, t. 4) yn nodi y "*Ceir diffyg eglurder ymhlith darparwyr gwasanaeth a llunwyr polisi ynglŷn â'r derminoleg a ddefnyddir wrth drafod gwasanaethau i gynorthwyo pobl ifanc. Mae'r term 'gwaith ieuenctid' yn cael ei ddrysu'n aml â 'gwaith gyda phobl ifanc'.* Mae hyn yn arwain at ideolegau a blaenoriaethau sy'n gwrthdaro, ac nid yw hyn yn helpu cefnogi datblygu polisi" a galwyd ar Lywodraeth Cymru i "*Egluro'r defnydd o'r derminoleg 'gwaith ieuenctid', 'gwasanaeth ieuenctid' a 'gwasanaethau cymorth ieuenctid' yng Nghymru er mwyn rhoi iaith a ddealler yn fyd-eang ar gyfer datblygu a darparu polisi".* Mae llawer o waith wedi cael ei gyflawni yn ac ar ran y sector gwaith ieuenctid ers hynny, yn benodol trwy'r ddwy fersiwn o'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid (a sefydlwyd yn dilyn ymchwiliad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd i waith ieuenctid, 2016), ond **mae diffyg eglurder yn parhau o ran y derminoleg** gyda therm ychwanegol, "gwasanaethau gwaith ieuenctid" wedi dod yn fwy cynhenid.

2. Yn ogystal, er bod cofrestriad gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid trwy *Gyngor y Gweithlu Addysg* yn ddatblygiad a groesawyd yn 2017, mae'r **diffyg eglurder hwn wedi cael ei gyfuno** gan y diffiniad a ddefnyddir yng *Ngorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuenctid a Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith) (2016)* sy'n cyfeirio at weithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid fel **"Gwasanaethau Datblygu Ieuenctid"**, sy'n ymddangos yn anghyson. Mae hwn yn derm rhy eang i ddisgrifio gweithlu proffesiynol yn darparu gwasanaeth i bobl ifanc a danategir gan ddull addysg nad yw'n ffurfiol/anffurfiol.

3. Yn y cyd-destun hwn, er ein bod yn gefnogol o ddatblygu diffiniad ar gyfer gwaith ieuenctid a'i ymgorffori mewn cyfraith trwy'r *Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid (Darparu Gwaith Ieuenctid) (Cymru) 2025,* teimlwn fod angen mireinio'r testun arfaethedig. Mae ein sylwadau/ymateb i hyn wedi'i hysbysu gan bwrpas allweddol gwaith ieuenctid fel y disgrifir yn *Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol* Gwaith Ieuenctid:

   *"galluogi pobl ifanc i ddatblygu'n gyfannol, gan weithio gyda nhw i hwyluso eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol, i'w galluogi i ddatblygu eu llais,* dylanwad a lle mewn cymdeithas a chyrraedd eu llawn botensial",

4. Er nad oes crybwyll o'r Gwasanaeth Ieuenctid (y fframwaith y darperir gwaith ieuenctid) yn y diffiniad arfaethedig, cyfeirir ar y gwasanaethu cymorth ieuenctid fel un gwasanaeth, ond nid yw hyn yn wir. Felly, yr argymhelliad ar gyfer rhan gyntaf y diffiniad yw **"…diffinnir gwaith ieuenctid fel "gwasanaethau a ddarperir o fewn gwasanaethau cymorth ieuenctid…".** Mae hyn hefyd yn gymwys i'r newidiadau arfaethedig i'r is-ddeddfwriaeth lle cyfeirir at **"wasanaeth cymorth ieuenctid"** (un) o dan y diffiniad ar gyfer gwaith ieuenctid (tudalen 2), er bod y lluosog "gwasanaethau" wedi'i ddefnyddio'n gywir ymhobman arall.

5. Mae rhan nesaf y diffiniad yn cyfeirio at *"…dull addysgol neilltuol sy'n seiliedig ar ymgysylltiad gwirfoddol gan bobl ifanc".* Y dull addysgol neilltuol yw'r hyn sy'n nodi gwaith ieuenctid yn wahanol i'r ysgol/colegau (sefydliadau addysgol ffurfiol) c felly, byddai'n elwa o eglurder pellach h.y. **dull addysgol yn seiliedig ar ddysgeidiaeth nad yw'n ffurfiol/anffurfiol.** Er bod y fethodoleg yn wahanol i addysg ffurfiol, yn aml mae gan waith ieuenctid **amcanion a chanlyniadau dysgu clir a chynlluniedig.** Nid yn unig y mae hyn yn disgrifio'n glir y dull sy'n benodol o fewn y cynnig gwasanaethau cymorth ieuenctid fel gwasanaeth <u>addysg</u> ond hefyd o fewn y teulu addysg yn ategol at addysg ffurfiol. Mae disgrifiad Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol hefyd yn crybwyll *datblygiad personol a chymdeithasol,* felly argymhellwn gynnwys hyn hefyd.

6. Mae rhan derfynol y diffiniad arfaethedig yn cyfeirio at waith ieuenctid fel *"…cael ei gyflenwi gan bersonau sy'n meddu ar gymhwyster gweithiwr ieuenctid neu gymhwyster gweithiwr cymorth ieuenctid."* Er yn gefnogol o'r egwyddor, mae'r CLILC, CCAC a'r GPSI yn ymwybodol fod llawer iawn o waith ieuenctid yn cael ei gefnogi gan wirfoddolwyr a gweithwyr anghymwys, rhan-amser hynod o werthfawr, sydd hefyd yn haeddu cydnabyddiaeth am eu rôl. Felly, gwnawn yr achos i'r geiriau "cael ei gyflenwi gan…" gael eu haddasu i "cael ei arwain gan…" fel ei fod yn dweud **"arwain gan bersonau sy'n meddu ar gymhwyster gweithiwr ieuenctid neu gymhwyster gweithiwr cymorth ieuenctid'."** Gan gyfeirio eto at adroddiad thematig Estyn, "*Mae staff gwaith ieuenctid proffesiynol yn gofyn mwy, ac maent yn fwy tebygol o geisio ffyrdd i sicrhau deialog barhaus gyda phobl ifanc yn unigol neu mewn grwpiau, ac i roi adborth ar ddeilliannau'r barnau y maent wedi'u rhannu."* (Tud. 27).

7. I grynhoi, ein cynnig ar gyfer diffiniad yw:

*"gwasanaethau a ddarperir o fewn y cynnig gwasanaethau cymorth ieuenctid gan ddefnyddio dull addysgol neilltuol nad yw'n ffurfiol/anffurfiol (personol a chymdeithasol) sy'n seiliedig ar ymgysylltiad gwirfoddol gan bobl ifanc, ac sy'n cael ei arwain gan bersonau sy'n meddu ar gymhwyster gweithiwr ieuenctid neu gymhwyster gweithiwr cymorth ieuenctid'.*

C2. A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol i'r dull gweithredu hwn?

8. Mae CLILC/CCAC a'r GPSI yn croesawu eglurder gwell o ran diffiniad gwaith ieuenctid ac yn cefnogi sail ddeddfwriaethol gryfach ar gyfer y proffesiwn, ac felly, y cynnig ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed. Yr unig ganlyniad anfwriadol y gallwn ei ragweld yw o ran y diffiniad arfaethedig (fel yr eglurwyd) o bosibl yn edrych heibio'r gweithlu gwirfoddol a/neu anghymwys gwerthfawr. Gellir osgoi hyn trwy newid y geiriau "cael ei gyflenwi gan" i "cael ei arwain gan".

C3. Ydych chi'n teimlo y bydd y gofyniad am gynllun strategol gwaith ieuenctid yn helpu i gryfhau'r ffordd y caiff gwaith ieuenctid ei gynllunio a'i gyflenwi?

9. Er, mewn egwyddor, gall gynllun strategol 5 mlynedd ymddangos i fod yn ddull effeithiol ar gyfer cynllunio, monitro a gwerthuso strategol, yn ogystal â chyfle i fapio'r darparwyr yn y sector a chreu platfform ar gyfer gwell gwaith partneriaeth,

mae rhai pryderon hefyd. Y brif ystyriaeth yw o ran cysondeb rhwng **cynllun strategol 5 mlynedd a chyllid blynyddol** ar gyfer gwasanaethau/darparwyr, a all weithio yn derbyn ymdrechion i gynllunio yn hirdymor. Mewn sector sy'n tyfu, ni fyddai hyn yn broblem, ond fel yr adroddwyd gan yr *Adolygiad Cyllido Gwaith Ieuenctid Cymru,* "…mae cyfanswm incwm a gynhelir yn y sector gwaith ieuenctid wedi lleihau 26% ers 2010/11" (Adolygiad Cyllido Gwaith Ieuenctid, Adroddiad Cam 2, Mehefin 2024), bydd sicrhau cynnig cyson ar gyfer cynllun strategol 5 mlynedd yn heriol wrth i gyllid ar gyfer gwaith ieuenctid barhau i leihau. Yn sgil setliadau cyllido llym iawn, nid oes gan rai awdurdodau lleol unrhyw ddewis oni bai am ystyried ailstrwythuro eu gwasanaeth ieuenctid, a all arwain at dîm craidd mor fach fel nad yw'n bosibl gwneud cais am / tynnu ar gyllid ychwanegol/allanol. Mae'r sector gwirfoddol hefyd yn parhau i wynebu cyllidebau llai, gyda rhai darpariaethau yn cau yn sgil hyn."

10. Er nad yw'n ddatrysiad i'r ddynameg rhwng cynllunio hirdymor a'r lleihad parhaus mewn cyllid/darpariaeth, gall **gynlluniau gweithredu blynyddol** yn gysylltiedig â'r cynllun strategol 5 mlynedd liniaru hyn, gan y gallent ystyried y tirlun darpariaeth a chyllid newidiol yng nghyd-destun amcanion lefel uwch.

11. Mae'r GPSI, CCAC a CLILC yn ceisio sicrwydd, er bod yr adolygiad eisiau mynd i'r afael ag argymhelliad 2 o'r *Adroddiad Mae'n Bryd Cyflawni Dros Bobl Ifanc y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro* h.y. *"Sefydlu sail ddeddfwriaethol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru",* nad yw ystyriaethau yn y dyfodol ar gyfer datblygu polisi yn y sector hwn, yn gwyro oddi wrth y bwriad hwn. Er bod y fframwaith ddrafft yn cyfeirio at y "cynlluniau strategol gwaith ieuenctid", mae pryder yn parhau y gall hyn gael ei ehangu i gynnwys **gwasanaethau cymorth ieuenctid** eraill. Pe byddai hyn yn digwydd, bydd angen ymgynghoriad arall, gan nad oes capasiti nac isadeiledd ar hyn o bryd i wneud hynny. Pan oedd trefniant o'r fath mewn lle yn ddiweddar, (o dan Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc a Phartneriaethau Pobl Ifanc), darparwyd cyllid, capasiti ac adnoddau yn ganolog er mwyn cyflawni'r gwaith hwn. Er y bydd y cynigion presennol ar gyfer cynlluniau gwaith ieuenctid yn her, byddai unrhyw beth ehangach na hyn yn golygu ailfeddwl y strwythurau eto, ac ati.

12. Wrth ystyried y gofyniad yn Adran 9 (3) y Cyfarwyddiadau arfaethedig, mewn digwyddiad o wrthod neu addasiad gofynnol i'r "cynllun strategol", mae'r GPSI, CCAC a CLILC yn ceisio eglurder pellach o ran **pa gymorth fydd mewn lle** i osgoi sefyllfa o'r fath a/neu hwyluso unrhyw bryderon er mwyn sicrhau bod y cynllun yn derbyn cymeradwyaeth.

C4. Ydych chi'n teimlo y bydd y cynllun strategol gwaith ieuenctid yn darparu strwythur atebolrwydd effeithiol ar gyfer gwaith ieuenctid?

13. Er bod gwaith ieuenctid yn werthfawr iawn (yn arbennig yn ystod ac wrth i ni barhau i ddod allan o'r pandemig Covid diweddar), yn y gorffennol mae'r sector wedi'i chael yn anodd cael eu hystyried fel gwasanaeth strategol. Yn wir, roedd y Rhagair gan y Gweinidog yn ail *Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru* (2014-18, t.2) yn nodi *"Mae angen i arfer gwaith ieuenctid gael ei ystyried yn wasanaeth strategol ledled Cymru, yn hytrach nag agwedd ar wasanaeth hamdden neu'n wir*

*yn wasanaeth dewis olaf."* Felly, dylid croesawu unrhyw ymdrech i wella ei statws a gallu i gael mwy o effaith ar lefel strategol.

14. Rhaid i unrhyw gynllun strategol sicrhau bod holl bartïon yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr i ddatblygiad a darpariaeth y cynllun, a hefyd yn **atebol am eu rolau** i fodloni amcanion y cynllun, adlewyrchu anghenion pobl ifanc ("y sail dystiolaeth"). Er bod elfen hanfodol o atebolrwydd i'r bobl ifanc eu hunain, mae'r fframwaith cyfreithiol yn nodi y bydd llywodraeth leol yn parhau i fod yn gyfrifol ac yn atebol am ddatblygiad a darpariaeth y cynllun strategol.

15. Er na grybwyllir yn y cyfarwyddiadau drafft na'r ddogfen ymgynghori, **mae Adran 125 o'r un Ddeddf yn nodi pa gyrff y dylai awdurdodau lleol ymgynghori â nhw wrth gydymffurfio â chyfarwyddyd o dan Adran 123** h.y. bwrdd iechyd lleol, prif swyddog yr Heddlu, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Pwyllgor y Gwasanaeth Prawf, darparwr gwasanaethau prawf, tîm troseddu ieuenctid, *"…unrhyw gorff gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc yn y lleoliad neu ardal dan sylw y mae'r awdurdod lleol yn meddwl ei fod yn briodol ymgynghori â nhw"*, Comisiwn Addysg ac Ymchwil (Medr), y Gwasanaeth Gyrfaoedd ac ati. Felly'r rhagdybiaeth yw y bydd hyn yn parhau i fod yn gymwys i gynlluniau strategol gwaith ieuenctid (elfen o wasanaethau cymorth ieuenctid) ac yn ffurfio'r sail ar gyfer strwythur atebolrwydd effeithiol. Gweler sylwadau pellach ar atebolrwydd isod, yn ateb C 6.

C5. Bwriad y cynigion yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynllunio ac yn cyflenwi darpariaeth gwaith ieuenctid mewn ffordd gydweithredol yn unol â'r angen lleol. Ydych chi o'r farn bod angen nodi gofynion manylach?

16. Mae darpariaeth gwaith ieuenctid bob amser yn ymateb i, ac yn cael ei benderfynu gan anghenion pobl ifanc (11-25 oed) ym mhob ardal leol. Mae hyn **yn golygu cymaint o hyblygrwydd â phosibl.** Er enghraifft, gall un awdurdod lleol (neu ardal o fewn awdurdod lleol) fod â phoblogaeth sy'n ifanc yn bennaf, gan olygu bod angen i'r ddarpariaeth fod ar gael (unai yn uniongyrchol a/neu gyda phartneriaid) i ddiwallu'r anghenion hyn h.y. amseroedd agor sy'n gweddu pobl ifanc 11-15 oed orau (er enghraifft) a darparu gweithgareddau addysgol ysgogol/heriol sy'n briodol i'r grŵp oedran hwn. I'r gwrthwyneb, gall ardal gymdogol fod â mwy o bobl 19-25 oed a fydd yn debygol angen oriau agor hwyrach, a rhaglen o weithgareddau sy'n fwy perthnasol i'w grŵp oedran.

17. Er bod y mynegiant o angen yn seiliedig ar ddialog parhaus gyda, a chyfranogiad pobl ifanc, mae bodloni'r anghenion hyn mewn modd cydweithredol rhwng darparwyr perthnasol yn allweddol er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn gallu **cael mynediad llawn i'w hawliadau.**

18. Fel y crybwyllwyd uchod, *mae Adran 125 y Ddeddf Dysgu a Sgiliau* yn nodi pa bartneriaid sydd angen i awdurdodau lleol gydweithio â nhw (gweler uchod), felly yn unol â hyn, mae'r ddeddfwriaeth eisoes yn eithaf rhagnodol.

C6. Ydy'r trefniadau atebolrwydd a gynigir yn y fframwaith statudol yn ddigon cadarn a chlir?

19. O ystyried bod y partneriaid ar gyfer datblygu'r cynllun strategol wedi'u nodi yn Adran 125, yr hyn na grybwyllir yn yr addasiad arfaethedig i'r ddeddfwriaeth (adran 8) yw sut fydd partneriaid hefyd yn cael eu dwyn i gyfrif fel rhan o'r fframwaith. Byddai rhywun yn tybio bod **cyflwyniad diweddar o arolygiadau Estyn i waith ieuenctid** (gan gynnwys darparwyr y sector gwirfoddol) yn chwarae rhan gynyddol yn hyn ar gyfer darparwyr y sector gwirfoddol, ond rhaid nodi, oni bai y caiff ei gyllido yn uniongyrchol gan, mewn trefniadau dan gontract gyda, neu trwy gytundebau lefel gwasanaeth gyda, partneriaid anstatudol e.e. ni all y rhai yn y sector gwirfoddol gael eu dwyn i gyfrif yn uniongyrchol gan yr awdurdodau lleol. Os fydd unrhyw broblemau/pryderon gydag unrhyw bartner o'r natur hwn fodd bynnag, gall awdurdod lleol derfynu unrhyw drefniadau gyda'r partner hwnnw, ond efallai bod angen ystyriaeth bellach i'r maes hwn o atebolrwydd.

20. Eisoes mewn lle mae nifer o lefelau o atebolrwydd y mae adrannau a chynlluniau mewn awdurdodau lleol yn destun iddynt, e.e. swyddog a chraffu gwleidyddol ac, yn allanol, cyrff arolygu (mewn gwasanaethau addysgol, Estyn), yn ogystal â phartneriaid statudol eraill.

C.7 Ydy'r hawlogaeth arfaethedig i waith ieuenctid yn crynhoi'n glir sut rydym i gyd yn dymuno gweld gwaith ieuenctid yn cael ei gynllunio a'i gyflenwi?

21. Bydd unrhyw hawlogaeth gwaith ieuenctid yn dibynnu'n bennaf ar dri amrywiolyn:

- **Angen pobl ifanc** mewn unrhyw ardal leol fel y mynegir gan y bobl ifanc trwy ymgysylltiad parhaus gyda'r awdurdod lleol, a fydd yn penderfynu'r blaenoriaethau a'r cynnig cyffredinol.

- **Diffiniad gwaith ieuenctid** (gweler ein hadborth ar hyn uchod) yn gymwys i holl bartneriaid sy'n cynnig darpariaeth. Mae penderfyniadau ar a yw partner yn cael ei ystyried yn rhan o'r hawlogaeth gwaith ieuenctid h.y. yn darparu gwaith ieuenctid a dim gwaith arall gyda phobl ifanc fel rhan o'r cynnig gwasanaethau cymorth ieuenctid ehangach, yn ymddangos i fod yn **benderfyniad i'r awdurdod lleol** (Adran 5. (5)), ond bydd diffiniad yn hanfodol fel sail i'r broses hon.

- **Cyllid** - mae hyn yn hynod o berthnasol mewn cyd-destun (a'r gallu i gynnig) mynediad agored a darpariaeth wedi'i dargedu. Fel yr eglurir ym mharagraff 9 uchod, mae'r cyllid craidd (a ddarperir mynediad agored yn bennaf) a grant (darpariaeth wedi'i dargedu) ar gyfer gwaith ieuenctid yn parhau i leihau. Mae nifer o **wasanaethau yn cael eu rhedeg ar fodel ariannu 'clytwaith'.** Nid yw hyn i ddweud bod y model hwn yn gwbl niweidiol, gan y gall gyllid (grant) ychwanegol fod yn hanfodol i ehangu unrhyw gynnig lleol. Fodd bynnag, mae'r cyllid (grant) hwn fel arfer yn un tymor byr, felly mae diffyg cysondeb ac mae hyn yn cyflwyno heriau o ran recriwtio/cadw staff, a gall wneud yr heriau ar waith ieuenctid a all aflunio'r cynnig gwaith ieuenctid. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, yn aml mae'n rhaid i ddarparwyr gwaith ieuenctid addasu ac arloesi.

22. Wedi dweud hynny, ar wahân i ystyried isadran ychwanegol o’r ddeddfwriaeth ar **sut all yr hawlogaeth gwaith ieuenctid ymwneud â’r cynnig cymorth ieuenctid ehangach,** nid oes gennym unrhyw beth arall i’w ychwanegu i baragraff 5 y ddeddfwriaeth ddrafft, er y bydd y manylion yn y fframwaith newydd yn bwysig i ddylanwadu hyn.

C8. Mae'r fframwaith statudol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a chyflenwi gwaith ieuenctid. Byddai'r union ddull o gyflawni hyn yn cael ei benderfynu ar sail yr angen a'r strwythurau lleol. Ydych chi o'r farn bod angen nodi gofynion manylach?

23. Mae gan waith ieuenctid hanes cryf a llawn parch o ran ymgysylltu gyda phobl ifanc i ddylunio a darparu’r cynnig gwaith ieuenctid. Mae **strwythurau llwyddiannus a sefydledig ar draws y gwasanaeth** ar gyfer gwneud hynny, megis Fforymau Ieuenctid, Senedd yr Ifanc, Cynghorau’r Ifanc a strwythurau cyfranogi sefydledig ar bob lefel. Mae swyddog arweiniol yr awdurdod lleol ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc yn aml wedi’i leoli o fewn strwythur gwasanaeth ieuenctid hefyd. Mae holl wasanaethau yn defnyddio **safonai cyfranogiad phlant a phobl ifanc** fel sail i’w gwaith. Er ein bod yn bell o fod yn fodlon o ran hyn, teimlir bod y strwythurau ar gyfer ymgysylltu gyda phobl ifanc i ddylunio a darparu gwaith ieuenctid yn gadarn ac effeithiol ac nid oes angen unrhyw weithredu pellach.

24. Er bod rhai o’r rhwystrau i gael mynediad at waith ieuenctid (fel yr eglurir gan bobl ifanc) o fewn cylch y sector i’w wella (codi ymwybyddiaeth o ddarpariaeth a sicrhau eu bod yn ofodau hygyrch a chroesawgar), mae rhai tu hwnt i reolaeth y sector e.e. cludiant. Fodd bynnag, mae gweithwyr ieuenctid yn parhau i gefnogi pobl ifanc yn uniongyrchol ac fel eiriolwyr er mwyn codi’r materion hyn gyda’r pwerau ac awdurdodau perthnasol er mwyn gweithio tuag at ddatrysiadau.

25. Rydym wedi trafod uchod, rôl bwysig sydd gan bobl ifanc i ddwyn yr awdurdod lleol a phartneriaid i gyfrif. Mae hyn yr un mor bwysig ar y camau dylunio a darparu gwasanaeth.

<u>Casgliad</u>

Fel y nodwyd ar ddechrau’r ymateb hwn, **mae’r awdurdod lleol yn falch o’i rôl statudol** i ddarparu a chydlynu gwaith ieuenctid ac yn gweld perthnasedd a phwysigrwydd hyn i filoedd o bobl ifanc ar draws Cymru. Yn y cyd-destun hwn, rydym hefyd yn cefnogi’r cynnig i gryfhau sail statudol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru trwy G*yfarwyddiadau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid (Darparu Gwaith Ieuenctid) (Cymru) 2025,* ac yn y broses, dod a mwy o eglurder yng nghyd-destun darpariaeth gwasanaethau cymorth ieuenctid.